

LLOYD (TEULU), Rhiwaedog (Rhiwedog), plwyf Llanfor, Sir Feirionnydd.

Er mai yn ail hanner y 17eg ganrif y cymerth Plas Rhiwaedog y ffurf y gwelir ef ynddo heddiw (1664?; gweler y plan yn *Merioneth Inventory* o dan rif 364; dangosir ei safle o dan yr enw ' Ruedok ' ym map John Speed, 1610), y mae tystiolaeth bod teulu'r Llwydiaid yn y fangre honno rai canrifoedd cyn hynny. Dywed [J. Y. W. Lloyd](#) (*Archæologia Cambrensis*, IV, v, 198) i'r teulu ddyfod i feddiant o Riwaedog trwy briodas eu cyndad MEREDYDD AB IEUAN AP MEREDYDD gyda MARGARET, merch hynaf a chyd-aeres EINION AB ITHEL, o Riwaedog, ' Esquire of the Body of John of Gaunt,' dug Lancaster, yn 1395 a siryf Meirionnydd. Mab oedd Einion (medd [Lloyd](#)) i ITHEL AP GWRGENEU FYCHAN AP GWRGENEU AP MADOG AP RHIRYD FLAIDD.

Pan aeth [Lewys Dwnn](#) i Riwaedog ar 1 Awst 1592, yn rhinwedd ei swydd fel dirprwy-herodr, rhoddwyd copi o ach y teulu iddo gan ELISE ap WILLIAM LLOYD, a fu'n siryf Meirionnydd yn 1565. Y mae'r ach honno (*Visitations*, ii, 225-6; gweler hefyd y nodiadau gan [W. W. E. Wynne](#)) yn olrhain y teulu trwy [Owain Gwynedd](#) a [Llywarch Hen](#) hyd at Goel Godebog. Rhydd [J. E. Griffith](#) (*Pedigrees*, 234) ddisgyniadau'r teulu o [Owain Gwynedd](#) hyd y flwyddyn 1832; dengys hefyd (*ibid.*, 383) y cysylltiad rhwng disgynyddion [Simon Lloyd](#), Plasyndre, Bala (brawd y John Lloyd, Rhiwaedog, a fu farw yn 1724), a phrif gangen y teulu. Darfu'r brif gangen honno yn hanner cyntaf y 19eg ganrif pan fu tri aer (yn olynol) farw yn ddiblant, sef (a) WILLIAM LLOYD DOLBEN, a ddilynwyd gan ddwy chwaer a oedd yn gyfnitherod iddo, sef (b) MARTHA ILES (bu farw 1825) a (c) ANN SOPHIA MARIA ILES, a adawodd yr eiddo, pan fu farw yn 1832, i Frances (Lloyd), merch John Lloyd, Berth a Rhagad, a gwraig [Richard Watkin Price](#), Rhiwlas, plwyf Llanfor ([gweler Price](#), Rhiwlas).

Yn ystod y canrifoedd bu amryw o'r Llwydlaid yn siryfion Meirionnydd. Y cyntaf i lanw'r swydd, efallai, oedd EINION (EIGNION) AB ITHEL AP GWRGENEU (uchod), un o wasanaethyddion personol John of Gaunt; bu ef farw yn ystod 1399-1400 pan oedd yn dal y swydd o siryf. Y nesaf, y mae'n debyg, ydyw ELISE AP WILLIAM LLOYD (uchod), a fu'n siryf yn 1564-5. Bu JOHN LLOYD yn siryf yn 1615-6; efallai mai'r un ydoedd ef â'r JOHN LLOYD a lanwodd y swydd yn 1636. LEWIS LLOYD oedd siryf 1652-3; yr un ydoedd yntau, efallai, â LEWIS LLOYD, siryf 1665-6. Bu JOHN LLOYD yn siryf 1704-5 a JOHN LLOYD arall (yr un a'r unrhyw?) yn 1715-6. JOHN LLOYD, Fachddeiliog, oedd siryf 1738, eithr WILLIAM LLOYD, Rhiwaedog, oedd siryf tymor 1764-5; bu'r olaf farw yn 1774 a'i ddilyn yn Rhiwaedog gan ei nai, WILLIAM LLOYD DOLBEN, mab ei chwaer (Susan Dolben). Dywed [W. W. E. Wynne](#) ([E. Breese](#), *Kalendars of Gwynedd*) fod siryf 1831-2, sef Hugh Lloyd, Caer a Chefnbodig, yn disgyn yn uniongyrchol o hen deulu Rhiwaedog. Nai i Hugh Lloyd, sef George Price Lloyd, Plasyndre, Bala, oedd siryf 1840-1 a nai iddo yntau oedd siryf 1887-8, sef Edward Evans-Lloyd, Moelygarnedd, gerllaw'r Bala. Siryf 1939-40 oedd Arthur Campbell Jones-Lloyd, Moelygarnedd a Chaer.

Fel y dywedwyd, yr oedd [Llywarch Hen](#) yn un o gyndadau'r Llwydiaid yn ôl yr achau (ac fel yr edrydd y traddodiad lleol). I'r achwyr a'r beirdd a oedd yn clera - a dylid cofio bod y rhan fwyaf o'r beirdd yn achyddion - bardd oedd [Llywarch Hen](#). Bellach dangosodd [Syr Ifor Williams](#) (*Canu Llywarch Hen*, 1935) nad bardd mohono eithr pennaeth a ddaeth yn destun 'saga' - amdano ef a'i hanes y gwelyd y canu a briodolid iddo gynt. Eithr i'r beirdd a'r achwyr a enwir isod yr oedd [Llywarch Hen](#) yn fardd. Ai tybed fod hyn yn cyfrif i raddau helaeth, er nad yn gyfan gwbl wrth gwrs, am y noddi eithriadol a fu ar feirdd yn Rhiwaedog am tua thri chan mlynedd - yn arbennig yn y 16eg a'r 17eg ganrif? Rhydd [Griffith Roberts](#) ('Gwrtheyrn') yn nwy o'i lawysgrifau (NLW MS. 7411 a 7421) enwau llawer o'r beirdd a gyrchai i Riwaedog - [Gruffudd Hiraethog](#), [Tudur Aled](#), [Sion Ceri](#), [Bedo Hafhesp](#), [Siôn Phylip](#), [Richard Phylip](#), [Richard Cynwal](#), [Wiliam Cynwal](#), [Rhys Cain](#) - y mae rhôl achau Rhiwaedog a luniodd [Rhys Cain](#) yn 1610 yn cael ei chadw yn Rhiwlas yn awr - [Wiliam Ll n](#), [Siôn Tudur](#), [Simwnt Fychan](#), [Tomos Prys](#), [Huw Arwystli](#), [Lewis Dwnn](#), [Lewis Môn](#), [Lewis Menai](#), ac [Owain Gwynedd](#) - heblaw beirdd llai adnabyddus. (Gweler yn yr erthygl ar ' Phylipiaid Ardudwy ' yn *Cymm*. xlii gyfeiriad at yr 'ymryson' rhwng [Richard Phylip](#) a [Richard Cynwal](#) ar fater ' bardd teulu ' Rhiwaedog.) Er nad oedd y [Dr. John Davies](#) o Fallwyd yn glerwr, bu iddo yntau hefyd ganu i'r teulu. Ac ni ddarfu mo'r traddodiad yn llwyr hyd yn oed yn y 18fed ganrif, oblegid pan fu farw William Lloyd, Rhiwaedog, yn 1774, canodd ei gymydog, [Robert William](#), Pandy Rhiwaedog, farwnad ar ei ôl (N.L.W. MS. 595).

Ni enwyd [Rowland Vaughan](#), Caergai, gyda'r beirdd uchod, serch iddo yntau ganu i un aelod o'r teulu. Eithr ffaith bwysicach o lawer ydyw i [Rowland Vaughan](#) gyflwyno ei waith mwyaf adnabyddus, *Yr Ymarfer o Dduwioldeb* - sef cyfieithiad o *The Practice of Piety* gan [Lewes Bayly](#), esgob Bangor - ' I'r Annwyl Vrddasol Wraig: Margred, vnig etifeddes Syr John Lloyd marchog a Sersiant or gyfraith a chywely John Lloyd o Riwaedog.' Yn 1630 y cyhoeddwyd argraffiad cyntaf *Yr Ymarfer o Dduwioldeb*, gwaith y cafwyd chwech argraffiad ohono wedi hynny - a'r diwethaf oll yn 1930. A mwy diddorol hyd yn oed na'r cyflwyniad ydyw'r ffaith mai ar gais Margaret Lloyd y gwnaeth [Rowland Vaughan](#) y cyfieithiad; yn nechrau ei gyflwyniad dywaid [Vaughan](#): ' ...ni allwn lai na gwneuthur fy ngorau ar gyflawni eich dymuniad: sef, cyfieithu y llyfr hwn yn y dafodiaith arferedig i ni ym mro wynedd ... i dalu diolch i chwi am eich aml ddaioni ach boneddigeidd-dra tu ag attaf fi am heiddo.'

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Enwyd rhai o'r prif ffynonellau yng nghorff yr erthygl

Atynt hwy ychwaneger R. J. Lloyd Price, *The history of Rulacc, or Rhiwlas Ruedok, or Rhiwedog; Bala, its lake; The Valley of the Dee River; and much more of Meirionethshire and Counties adjacent thereto* (Llundain 1899), 1899, a'r cyfeiriadau a roddir yn y llyfr od hwnnw

Archaeologia Cambrensis, III, v ('Precious Pebble of Owain Gwynedd') V, i, ii ('The Crystal Pebble [of Owain Gwynedd] at Rhiwaedog'), a V, iii

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733823](https://www.wikidata.org/wiki/Q20733823)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

